

TYNNU NEU ALW CYNNYRCH YN ÔL



Mae ymateb yn gyflym i unrhyw broblemau gyda chynhyrchion bwyd a ddefnyddir neu a werthir gennych yn rhan bwysig iawn o reoli diogelwch bwyd yn eich busnes.

Weithiau, bydd problem gyda chynnyrch bwyd a fydd yn golygu bod gofyn i chi ei 'dynnu'n ôl' (rhoi'r gorau i'w ddefnyddio/gwerthu) a/neu ei 'alw'n ôl' (pan ofynnir i gwsmeriaid ddychwelyd/dinistrio cynnyrch). Mae'n bosibl y byddwch yn clywed am broblem gyda chynnyrch gan:

- wneuthurwr y cynnyrch
- cyflenwr neu gyfanwerthwr
- hysbysiad mewn papur newydd
- eich awdurdod lleol
- cymdeithas fasnach
- yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Os ydych chi'n clywed am broblem gyda chynnyrch, dylech roi'r gorau i'w ddefnyddio neu'i werthu yn syth. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd roi gwybod i'ch cwsmeriaid. Mae nifer o resymau dros dynnu neu alw cynnyrch yn ôl. Er enghraifft, mae'n bosibl ei fod:

- yn cynnwys bacteria niweidiol
- wedi'i halogi'n ffisegol, e.e. gyda darnau o wydr neu fetel
- wedi'i labelu'n anghywir, a allai arwain at broblemau i bobl sydd ag alergeddau bwyd

Efallai y byddwch chi neu'ch staff hefyd yn sylwi ar broblem gyda chynnyrch bwyd sy'n golygu nad yw'n ddiogel i'w fwyta. Os yw hyn yn digwydd, dylech roi'r gorau i'w ddefnyddio neu'i werthu yn syth a rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd

BETH I'W WNEUD	SUT?
Sicrhewch eich bod yn gwybod manylion y broblem.	Os bydd gweithgynhyrchwr neu gyflenwr yn tynnu neu alw cynnyrch yn ôl, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa gynnyrch neu swp (<i>batch</i>) sy'n peri'r broblem.
Cyn gynted â'ch bod yn clywed am broblem, rhowch y gorau i ddefnyddio neu werthu'r cynnyrch.	Tynnwch y cynnyrch dan sylw o unrhyw fan yr ydych yn ei ddefnyddio, ei storio neu ei werthu a'i labelu'n glir i ddangos na ddylid ei ddefnyddio na'i werthu. Cofiwch sicrhau nad ydych wedi defnyddio'r cynnyrch fel cynhwysyn mewn unrhyw fwyd yr ydych wedi'i baratoi a'i storio, e.e. yn y rhewgell. Os ydych chi wedi gwneud hyn, gofynnwch i'ch awdurdod lleol am gyngor
Gwnewch yn siŵr fod eich staff yn gwybod am y broblem.	Er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud a rhoi'r gorau i ddefnyddio/gwerthu'r cynnyrch.
Cofiwch roi gwybod i'ch cwsmeriaid os oes angen.	Os yw'r broblem gyda chynnyrch na fydd eich cwsmeriaid efallai yn ei fwyta neu'i yfed yn syth, efallai y bydd angen i chi eu hysbysu bod y cynnyrch yn cael ei alw'n ôl, gan egluro pam. Os yw'r gweithgynhyrchwr neu'r cyflenwr yn gofyn i chi arddangos hysbysiad galw cynnyrch yn ôl, dylech wneud hynny. Os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

MEDDYLIWCH DDWYWAITH!

Mae'n ofyniad cyfreithiol eich bod yn cadw cofnod o'r holl gynhyrchion bwyd yr ydych wedi'u prynu, gan bwy y bu i chi eu prynu, nifer y cynhyrchion a'r dyddiad. Fel arfer, y ffordd orau o wneud hyn yw cadw pob un o'ch anfonebau a'ch derbynebau. Dylech gadw'r cofnodion hyn mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd i chi neu unrhyw swyddog gorfodi eu gwirio i weld o ble y daeth y cynnyrch.